**<u>Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Mai 2024 yn Neuadd Felinfach</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Dan Evans Cadeirydd) Johnny Davies, Gerwyn Owen, Haf Hughes, Melinda Williams Glyn Davies, Alan Henson, Lyn Williams.

Y Cyng. Ceris Jones, Cynghorydd Sir

1.**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyngh. Harry Williams, Lynford Thomas, Hywel Ifans.

**2**. **PERSONOL** Dymunwyd yn dda i'r Cyng Johnny Davies a Harry Williams ill dau wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac i'r Cyng. Lynford Thomas sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Estynwyd cydymdemlad â'r Cyng. Alan Henson ar golli cefnder.

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL -** Dim i'w datgelu

**4**. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 23ain Mai,2023 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams. Derbyniwyd yn unfrydol.

**5.. MATERION YN CODI** Dim materion I'w trafod

**6. DEWIS SWYDDOGION 2024-25**

| | Swydd | Cynigydd: | Eilydd |
|---|---|---|---|
| **i.** | **Cadeirydd :** Cyng. Melinda Williams | Cyng. G. Davie | Cyng. Alan Henson |
| **ii.** | **Is-Gadeirydd** : Cyng. Haf Hughes | Cyng.D, Evans | Cyng. G. Davies |

Cadarnhawyd y penodiadiadau ac arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y ddau.

**iii.** **Clerc. Penderfynwyd** yn unfrydol ail-ethol y Clerc ar gyfer 2024-25 ac arwyddwyd y cytundeb, Cynigwyd gan Cyng. A. Henson ac eiliwyd gan Cyng. D. Evans.

**iv.** **Archilydd Mewnol.** Penderfynwyd ail ethol Mr. Gwyn Jones. Enwebwyd gan Cyng. G. Davies ac eiliwyd gan Cyng. G. Owen. **Penderfynwyd** anfon llythyr at Mr. Gwyn Jones yn ei wahodd i weithredu fel ein Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2023-2024 yn unol â'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys y ffi o £150.00.

Wrth droslgwyddo'r awennau diolchodd y Cyng. Dan Evans i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a dymunwyd yn dda i'r Cyng. Melinda Williams.

7. **CYLLID**

**i. Cyfrifon 2023-24**

Cwblhawyd y gwaith o archwilio'r cyfrifon gan yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd y canlynol i sylw'r aelodau:

a) Bod y cyfrifon wedi eu cwblhau i safon uchel gyda'r gweithdrefiannau eu gyd wedi eu dilyn
b) Y Clerc wedi gwneud un camgymeriad cofnodi drwy nodi codiad 2% yng nghyflog y Clerc yng nghofnodion Gorffennaf 2023 yn lle'r 5% a gytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol.
c) Siec £50 i YES CYMRU sydd heb ei gyflwyno ers mis Gorffennaf 2023 a siec o £50 i Neuadd Felinfach, Mawrth 2023 hefyd heb ei chyflwyno. **Penderfynwyd r**hoi £50 YES Cymru yn ôl i'r coffrau ac i gyflwyno siec newydd i Neuadd Felinfach.

Yn dilyn trafodaeth bellach, **penderfynwyd derbyn** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ac chadarnhau cyfrifon 2023-24 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. A. Henosn ac eiliwyd gan y Cyng. G. Davies. Cyhoeddir y cyfrifon ar y wefan cyn y 30ain Mehefin, 2024.

**ii.** **Lwfansau Cynhgorwyr**. Arwyddwyd taflenni gan y Cynghorwyr i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr am 2024-25. Anfonir ffurflen Datganiad o Daliadau i'r IRP yn dilyn y cyfarfod hwn.

**iii.** **Tâl Gweithwyr Rhan-Amser**. **Penderfynwyd** ychwanegu 2% i dâl y gweithwyr rhan-amser sef Mr. Tony Bretland a Mr. Les Verdin. Cynigiwyd gan Cyng. Dan Evans ac eiliwyd gan Cyng. G. Davies. **Penderfynwyd** cynnig codiad o 2% i'r Clerc o Ebrill 2024. Cynigiwyd gan Cyng. G. Davies ac eiliwyd gan Cyng. A. Henson.

**iv.** **Gweinyddu Cyflogres**. **Penderfynwyd yn unfrydol i** ofyn i gwmni Antur Teifi i weinyddu'r system cyflogres a PAYE ar gyfer cyflog y Clerc am 2024-25 ar gost o £5.00 y mis. Telir yr anfoneb yn flynyddol, sef £60.00 + TAW.

**v.** **Asedau ac Yswiriant**. Arwyddwyd y rhestr asedau gan y Cadeirydd.

**vi.** **Rheolau Ariannol**. Trafodwyd y rheolau ariannol a ddiwygiwyd yn ystod 2019-2020 mewn ymgynghoriad â Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd yn unfrydol ar gyfer gweithredu yn ystod 2024-25.

**vii.** **Polisiau.** Nodwyd bod dogfennau llwyodraethiant y Cyngor I'w gweld ar y wefan sef:-

Rheolau Sefydlog, Iechyd a Diogelwch (a adnewyddwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ar gyfer 2024-25), Polisi Preifatrwydd, Polisi Iechyd Meddwl a Lles, Polisi Hyfforddiant, Polisi Bio-Amrywiaeth, Polisi'r Iaith Gymraeg. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn y polisïau.

9. **Y COD YMDDYGIAD**

Dosbarthwyd penawdau'r Cod Ymddygiad ac atgoffwyd pawb am bwysigrwydd eu gweithredu. Arwyddwyd y Cod Ymddygiad gan y Cadeirydd

**10. UNRHYW FATER ARALL. Dim materion i'w trafod**

**11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF – 13eg Mai, 2025 Lleoliad i'w gadarnhau,**

.